Gwasanaeth y Tribiwnlys Prisio yng Nghymru

RHESTR BRISIO TRETH Y CYNGOR 2005

Arweiniad i'n

HYSBYSIAD O WRANDAWIAD



G/496/04-05
ISBN: 0 7504 3750 2

Ebrill
CMK-22-08-011

Cysodwyd teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

BETH YW HYSBYSIAD O WRANDAWIAD?

Mae'r hysbysiad o wrandawiad yn eich hysbysu pa bryd ac yn lle bydd y Tribiwnlys Prisio (TP) yn ystyried eich apêl.

Os nad ydych yn gallu mynychu'r gwrandawiad ar y dyddiad drefnwyd ac mae gennych rheswm da dros beidio â mynychu, dylech gysylltu â'r TP a gofyn am ddyddiad arall. Pan fo gohiriad yn digwydd, gall fod gryn amser cyn y gallwn roi dyddiad newydd i chi.

Os yw unrhyw fanylion a gynhwysir yn yr hysybysiad yn anghywir cysylltwch â Swyddfa'r Tribiwnlys ar unwaith.

BETH DDYLWN EI WNEUD NESAF?

Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i chi drafod eich apêl gyda'r Swyddog Rhestru (SR) er mwyn ceisio ei gytuno cyn dyddiad y gwrandawiad. Rhowch wybod i'r TP gynted â phosib os ydych yn cytuno ar eich apêl. Gellir tynnu eich apêl yn ôl, yn ysgrifenedig, ar unrhyw adeg cyn y gwrandawiad.

PWYSIG: Os nad ydych wedi cytuno ar eich apêl erbyn 10 diwrnod cyn y dyddiad gwrandawiad a hysbyswyd, llenwch y ffurflen rhadbost amgaeëdig a'i dychwelyd ar unwaith i Swyddfa'r Tribiwnlys.

SUT MAE PARATOI FY ACHOS AR GYFER Y GWRANDAWIAD TRIBIWNLYS?

Os ydych yn dymuno mynychu'r gwrandawiad tribiwnlys, mae angen paratoi eich achos cyn y gwrandawiad. Ceisiwch baratoi gymaint â phosib o dystiolaeth i gefnogi eich achos.

Caniateir i chi:

- roi tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig;

- gyflwyno unrhyw beth rydych yn credu all gynorthwyo eich apêl, megis llythyrau, lluniau neu gynlluniau; a
- dod â rhywun gyda chi, i siarad ar eich rhan neu i ymddangos fel tyst.

GWYBODAETH YNGLŶN AG APELIADAU RHESTR BRISIO

Bydd y Tribiwnlys yn disgwyl eich bod chi a'r SR wedi trafod unrhyw dystiolaeth rydych am ei chyflwyno yn y gwrandawiad, ymlaen llaw. Disgwylir hefyd eich bod wedi cytuno'r ffeithiau sylfaenol, yn cynnwys maint a chynllun eich eiddo.

Cofiwch wrth baratoi eich achos, fod y bandio yn seiliedig ar bris gwerthiant eich eiddo ar y **1af Ebrill 2003**. Mae'r dyddiad hwn yn cael ei bennu gan y gyfraith felly nid ydym yn gallu ei newid. Mae'n rhaid i'r SR edrych ar brisiau gwerthiant cyffredinol yn **2003**, hyd yn oed os na werthwyd nac adeiladwyd eich eiddo ar y dyddiad hwn.

Band	Amrediad Gwerthoedd	hyd at
A		£44,000
B	£44,001	£65,000
C	£65,001	£91,000
D	£91,001	£123,000
E	£123,001	£162,000
F	£162,001	£223,000
G	£223,001	£324,000
H	£324,001	£424,000
I	£424,001 ac uwch	

Mae'n rhaid i'r SR hefyd ddychmygu nifer o bethau ynglŷn â'r gwerthiant, yn cynnwys:

Fod yr eiddo wedi ei werthu'n wag;

Fod y budd a werthwyd yn rhydd-ddaliadol (neu yn brydles o 99 mlynedd ar gyfer fflat); a

Fod yr eiddo mewn cyflwr derbyniol.

Bydd y SR yn rhoi gwybod i chi, o leiaf bythefnos cyn y gwrandawiad, am werthiant unrhyw eiddo y byddent yn ei ddefnyddio yn y gwrandawiad. Caniateir i chi edrych ar y dystiolaeth yma cyn gwrandawiad y Tribiwnlys. Mae gennych yr hawl hefyd i ofyn i'r SR adael i chi edrych ar y dystiolaeth sydd ganddynt ar gyfer pedwar eiddo arall. (Os yw'r SR yn penderfynu defnyddio mwy na phedwar gwerthiant, gellir gofyn am yr wybodaeth hon hefyd).

Mae'r SR a'ch cyngor lleol yn cadw copïau o'r rhestr brisio, sy'n dangos bandiau'r holl eiddo yn ardal eich cyngor. Gallwch ofyn i'r SR neu'r cyngor adael i chi edrych ar y rhestr, er mwyn i chi allu cymharu band eich eiddo gyda eiddo eraill rydych yn ystyried eu bod yn debyg. Mae copïau o restrau prisio ar gyfer pob eiddo yng Nghymru a Lloegr ar gael ar wefan yr Asiantaeth Swyddfa Brisio (www.voa.gov.uk).

GWYBODAETH AM APELIADAU HYSBYSIAD ANNILYSRWYDD

Nodwch os gwelwch yn dda nad yw'r Tribiwnlys yn gallu penderfynu cywirdeb y band mewn achosion Apeliadau Annilysrwydd.

Gall y Tribiwnlys edrych ar y rheolau ar gyfer gwneud cynigiad yn unig.

Mae'r rheolau ar gyfer gwneud cynigion yn cael eu nodi mewn rheoliadau, sy'n arolygu'r broses ar gyfer gwneud apeliadau. Y rhesymau mwyaf cyffredin pam fo'r SR yn teimlo fod eich cynigiad yn annilys yw:

- **Gwnaed y cynigiad yn rhy hwyr.** Er enghraifft, cafodd ei wneud wedi'r terfynau amser cyfreithiol.

- **Ni chwblhawyd y cynigiad yn gywir.** Er enghraifft, ni roddwyd rhesymau pam yr oeddech yn credu fod y bandio yn anghywir neu ni roddwyd gwybodaeth lawn ynglŷn â phenderfyniad Tribiwnlys Prisio neu lys uwch, roeddech yn ei ystyried yn berthnasol.
- **Nid oes gennych yr hawl i wneud y cynigiad.** Er enghraifft, nid chi ydi'r preswylydd, perchennog neu denant yr eiddo apêl.
- **Fod Tribiwnlys prisio neu lys uwch wedi ystyried yr apêl yn flaenorol, ar yr un seiliau a ffeithiau.**

Os yw'r TP yn penderfynu fod eich cynigiad yn un dilys, bydd yn ystyried materion prisio yn ddiweddarach.

OES ANGEN I MI FYNYCHU'R GWRANDAWIAD?

Mae o fantais os ydych yn gallu mynychu'r gwrandawiad, fel eich bod yn gallu pe bai angen roi eglurhad neu ateb cwestiynau. Fodd bynnag fe ellir delio â'ch apêl yn y ffyrdd canlynol.

Cynrychiolaethau Ysgrifenedig (mewn cysyniad â'r Rheoliadau)

Gall y Tribiwnlys ddelio a'ch apêl yn y modd hwn, ond dim ond **os yw'r holl bartïon yn cytuno** i ddefnyddio'r dull yma.

Dim ond y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir gan yr holl bartïon y gellir ei hystyried pan fo apêl yn cael ei benderfynu drwy gynrychiolaeth ysgrifenedig.

Os ydi pawb yn cytuno, yn ysgrifenedig, byddwch yn cael eich hysbysu am y drefn.

Gall y Tribiwnlys ofyn i'r partïon am fwy o dystiolaeth. Gall hefyd benderfynu mai'r unig ffordd o ddelio â'r achos ydi drwy wrandawiad ffurfiol.

Cyflwyniad Ysgrifenedig

Os nad ydych yn gallu mynychu'r gwrandawiad, ac eisiau i'ch achos gael ei glywed yn eich absenoldeb, a'r partïon heb gytuno i'r dull cynrychiolaeth ysgrifenedig ffurfiol, **mae'n rhaid** i chi ysgrifennu a rhoi manylion unrhyw bwyntiau y dymunwch iddynt gael eu hystyried. Bydd y partïon eraill yn dal i fynychu'r gwrandawiad.

PWY FYDD YN BRESENNOL YN Y GWRANDAWIAD?

Aelodau'r Tribiwnlys Prisio

Fel rheol bydd tri aelod yn gwrando ar eich apêl, ond fe all dau aelod wranod apêl, os ydi pawb yn cytuno. Bydd un o'r aelodau'n cadeirio'r cyfarfod. Mae aelodau'r Tribiwnlys yn bobl leol sy'n wirfoddolwyr. Er nad ydynt efallai'n gymwys yn broffesiynol, maent yn derbyn hyfforddiant ac yn brofiadol mewn gwrando apeliadau. Mae aelodau'r Tribiwnlys yn annibynnol oddi wrth y SR, sy'n rhoi bandiau ar eiddo, a hefyd y Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) sy'n gyrru biliau Treth y Cyngor.

Y Clerc

Mae'r Clerc yn gweithredu fel cynghorwr, ar bwyntiau o gyfraith a threfn. Mae'r Clerc yn weithiwr cyflogedig y Tribiwnlys, ac nid yw'n cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad. Er hynny, mae'r clerc yn gyfrifol am ysgrifennu'r penderfyniad.

Cynrychiolydd y Swyddog Rhestru

Byddwch fwy na thebyg wedi cyfarfod aelod o staff y Swyddog Rhestru yn barod, i drafod eich apêl.

Gall y Cyngor (AB) hefyd ddewis dod yn rhan o'r apêl.

Chi

Gallwch fynychu'r gwrandawiad tribiwnlys neu ddewis cynrychiolydd, er enghraifft, ffrind neu gynghorwr proffesiynol, i weithredu ar eich rhan. **(Dylai unrhyw un sy'n mynychu ar eich rhan gael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny).** Gallwch hefyd ddod â rhywun fel tyst.

Y Cyhoedd

Mae gwrandawiad Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd. Fel rheol, yr unig bobl eraill sy'n mynychu gwrandawiad ydi'r bobl sy'n disgwyl i'w hachosion gael eu clywed.

Gallwch ofyn i'r apêl gael ei glywed yn breifat, ond mae'n rhaid dangos rheswm da dros wneud hyn.

BETH SY'N DIGWYDD YN Y GWRANDAWIAD TRIBIWNLYS?

Mae'r gwrandawiad yn weddol anffurfiol, ac rydym yn ceisio gwneud i bawb deimlo'n gartrefol. Er hynny, bydd y Tribiwnlys yn dilyn trefn, er mwyn sicrhau fod y partïon yn gallu cyflwyno eu hachosion. Bydd y Tribiwnlys yn penderfynu pwy fydd yn dechrau.

Yn ystod y gwrandawiad:

- Bydd yr holl bartïon yn cyflwyno eu hachosion;
- Gallwch ofyn cwestiynau i'r SR;
- Bydd y partïon eraill yn gallu gofyn cwestiynau i chi; a
- Gall y Tribiwnlys ofyn cwestiynau i chi a'r partïon eraill.

Gall yr aelodau ofyn i'r ddwy ochr grynhoi eu hachosion, cyn ymddeol i wneud penderfyniad.

Os nad ydych yn mynychu'r gwrandawiad neu yn cael eich cynrychioli yn y gwrandawiad, fe all y Tribiwnlys ddiystyru eich apêl.

A FYDD Y PENDERFYNIAD YN CAEL EI WNEUD YN HYSBYS I MI AR Y DIWRNOD?

Mae'r Tribiwnlys yn gallu rhoi ei benderfyniad ar lafar, ar ddiwedd y gwrandawiad. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn gyrru eu penderfyniadau drwy'r post. Mae'n rhaid i ni, yn ôl y gyfraith, roi copi ysgrifenedig o'r rhesymau dros y penderfyniad i chi. Bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i chi pa bryd y byddwch yn derbyn y penderfyniad ysgrifenedig.

GALL Y TRIBIWNLYS DDYFARNU COSTAU?

Na. Mae'r gwasanaeth yn ddi-dâl. Dim ond eich costau eich hunain sy'n rhaid i chi eu talu (a chostau unrhyw un sy'n eich cynrychioli) wrth baratoi eich achos a mynychu'r gwrandawiad.

Efallai y gall gyfreithiwr roi ychydig o gyngor i chi o dan y 'Cynllun Cymorth Cyfreithiol' gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.

BETH OS OES GENNYF ANGHENION YCHWANEGOL?

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig ychwanegol, er enghraifft mewn perthynas â'ch golwg, clyw neu symudedd, rhowch wybod i swyddfa'r tribiwnlys cyn dyddiad y gwrandawiad os gwelwch yn dda – byddwn yn gwneud ein gorau i helpu. Gellir gwneud hyn ar y ffurflen ymateb y cyfeiriwyd ati ar dudalen gyntaf y daflen hon.

Gallwn wneud trefniadau ar gyfer cyfieithu, ar gais, os nad yw wedi cael ei nodi ar eich apêl yn barod. Gallwn hefyd ddarparu rhywun i gyfathrebu â chi mewn iaith arwyddion (arwyddwr).

Rydym yn ymroddedig i drin pob un yn deg. Ni fydd unrhyw un sy'n gwneud apêl yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu hil, lliw, cenedligrwydd, oed, crefydd, tras ethnig, rhyw, rhywioldeb, statws priodasol neu anabledd.

YDI'N BOSIB CWYNO YNGLŶN Â'R GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych gŵyn ynglŷn â'r modd y cafodd eich achos ei drin gan weinyddiaeth y TP, yna:

- Yn gyntaf, dylech ysgrifennu at Glerc y Tribiwnlys, yn y cyfeiriad ddangosir yn ein hysbysiadau.
  Byddwch yn cael eich hysbysu o drefn cwyno llawn y Tribiwnlys yn ymateb y Clerc.
- Os nad ydych yn fodlon gyda'r ymateb, gallwch ysgrifennu at Lywydd y Tribiwnlys, gan gyfeirio'ch llythyr at Swyddfa'r Tribiwnlys.

Gallwch ddefnyddio'r broses yma o gwyno yn erbyn y modd cafodd eich apêl ei ymdrin yn weinyddol gan y Tribiwnlys, yn unig. Ni allwch apelio yn erbyn penderfyniad drwy'r modd hyn. Mae apêl pellach yn erbyn y penderfyniad i'r Llysoedd Uwch.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae hysbysiadau yng Nghymru yn cael eu darparu unai yn Gymraeg a/neu Saesneg, yn ddibynnol ar yr iaith ddefnyddiwyd yn y cynigiad gwreiddiol.

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig. Mae ein taflenni eraill yn cynnwys:

- cyngor cyffredinnol ynglŷn ag apelio i'r Tribiwnlys;
- arweiniad i'n hysbysiad o gydnabyddiaeth; ac
- arweiniad i'n hysbysiad o benderfnyiad.

Rydym hefyd yn cynnig arweinlyfrau ynglŷn â delio gydag Atebolrwydd Treth y Cyngor ac apeliadau Rhestr Brisio Annomestig. Os ydych yn dymuno derbyn unrhyw un o'r arweinlyfrau hyn, cysylltwch â Swyddfa'r Tribiwnlys yn y cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiad o wrandawiad.

Ein Cofnodion

Mae gan unrhyw un yr hawl i ymweld â swyddfeydd y TP i edrych ar gopïau o'r agendâu a phenderfyniadau wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe blynedd diwethaf. Agendâu yw rhestrau o apeliadau sydd wedi derbyn dyddiad gwrandawiad.

Amlinellir cydsynaid GTPC i Ryddid Gwybodaeth, Gwarchod Data a Deddfwriaeth Gwybodaeth Amgylcheddol mewn datganiad polisi a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan GTPC: copïau ar gael drwy swddfeydd TP.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â'r Tribiwnlysoedd Prisio ynghyd â chopïau o'r holl arweinlyfrau ar y wefan ganlynol sef:

www.valuation-tribunals.gov.uk [GTP Lloegr]

Mae gwefan dwyieithog yn cael ei datblygu yng Nghymru ar hyn o bryd (mae pob TP yn gweithredu yn debyg yn ei hanfod, ond mae yna ychydig o wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr o safbwynt deddfwriaeth).

www.valuation-tribunals-wales.gov.uk [GTP Cymru]

Y prif ddeddfwriaeth sy'n rheoli gweinyddiaeth Treth y Cyngor yw **Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992** ynghyd â'r rheoliadau ategol – yn arbennig;

i) Rheoliadau Treth y Cyngor (Newidiadau i Restrau ac Apeliadau) 1993 Offeryn Statudol 290
ii) Rheoliadau Tribiwnlys Prisio (Cymru) 1995 Offeryn Statudol 3056 (diwygiedig)

TRIBIWNLYS AR GYFER DWYRAIN CYMRU

Tribiwnlys Prisio Dwyrain Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 266367
Ffacs: 01633 253270
E-bost: eastwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Swyddfeydd Prisio:

Wrecsam
Tŷ'r Rhaglyw
Stryd Rhaglyw
WRECSAM
LL11 1PR Ffôn: 01978 200000

Merthyr Tudful
Cyllid y Wlad
Adeiladau'r Llywodraeth
Stryd y Castell
MERTHYR TUDFUL
CF47 8TX Ffôn: 01685 358000

Ardaloedd: CYNGOR (AWDURDODAU BILO)

CS Powys
CBS Blaenau Gwent
CBS Caerffili
CS Sir Fynwy
CT Casnewydd
CBS Torfaen

Casnewydd,
Ail Lawr
Tŷ Clarence
Llain Clarence
CASNEWYDD
Gwent
NP20 7AA Ffôn: 01633 205600

TRIBIWNLYS AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru
Ffordd Dinerth
Llandrillo-yn-Rhos
BAE COLWYN
Conwy
LL28 4UL
Ffôn: 01492 546610
Ffacs: 01492 545935
E-bost: northwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Ardaloedd: CYNGOR (AWDURDODAU BILIO)

CBS Wrecsam
CS Y Fflint
CS Ddinbych
CS Gwynedd
CS Ynys Môn
CBS Conwy

Swyddfeydd Prisio:

Wrecsam
Tŷr Rhaglyw
Stryd Rhaglyw
WRECSAM
LL11 1PR Ffôn: 01978 200000

Bangor
Tŷ Glyder,
339 Stryd Fawr
BANGOR
LL57 1YA Ffôn: 01978 200000

TRIBIWNLYS AR GYFER DE CYMRU

Tribiwnlys Prisio De Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG

Ffôn: 01633 255003
Ffacs: 01633 255004
E-bost: southwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Ardaloedd: CYNGOR (AWDURDODAU BILIO)

CBS Pen-y-bont ar Ogwr
CS Caerdydd
CBS Rhondda Cynon Taf
CBS Bro Morgannwg
CBS Merthyr Tudful

Swyddfeydd Prisio:

Caerdydd
Tŷ Rhodfa
Ffordd Tŷ Glas
Llanisien
CAERDYDD
CF14 5GR
CF47 8TX

Merthyr Tudful
Cyllid y Wlad
Adeiladau'r Llywodraeth
Stryd y Castell
MERTHYR TUDFUL
Ffôn: 02920 806800
Ffôn: 01685 358000

TRIBIWNLYS AR GYFER GORLLEWIN CYMRU

Tribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru
Llawr Cyntaf
14 Stryd y Brenin
CAERFYRDDIN
SA31 1BH
Ffôn: 01267 235071 Ffacs: 01267 221579
E-bost: westwales.vt@vto.gsx.gov.uk

Ardaloedd: CYNGOR (AWDURDODAU BILIO)

CBS Castell-nedd Port Talbot
Dinas a Sir Abertawe
CS Caerfyrddin (Rhan 3)
CS Caerfyrddin (Rhan 1 a 2)
CS Ceredigion
CS Sir Benfro

Swyddfeydd Prisio:

Caerfyrddin
Adeiladau'r Llywodraeth
Teras Picton
CAERFYRDDIN
SA31 3BT Ffôn: 01267 322200

Swansea VO
Tŷ Nant
180 Stryd Fawr
ABERTAWE
SA1 1JR Ffôn: 01792 497700

Dylech nodi nad yw'r daflen hon yn cynnwys pob agwedd o apeliadau Treth y Cyngor. Nid yw'r wybodaeth mae'n ei chynnwys yn rhwymo unrhyw Dribiwnlys Prisio, nac yn effeithio ar ddefnydd y rheolau neu ddeddfau perthnasol. Bydd Clerc y Tribiwnlys yn ymateb i unrhyw gais rhesymol am gyngor ynglŷn â'r drefn cyn dechrau'r gwrandawiad.